Steffan: y ganrif gyntaf

Y merthyr cyntaf

Ffyddlondeb / dewrder

Wyddoch chi beth ydi merthyr? Pobl ydyn nhw sy'n barod i farw dros yr hyn maen nhw'n ei gredu ynddo. Ar draws y canrifoedd mae sôn am ferthyron. Mae'n bur debyg mai Steffan oedd y merthyr cyntaf. Cawn ei hanes yn llyfr yr Actau yn y Testament Newydd. Dyma stori Steffan.

Yn gynnar yn hanes yr eglwys, apwyntiodd yr apostolion saith o ddiaconiaid i'w helpu. Yn ôl pob hanes, Steffan oedd y cyntaf o'r saith i gael ei ddewis. Roedd Steffan yn ddyn da. Iddew oedd Steffan oedd yn siarad yr iaith Roeg. Felly ef oedd y dyn gorau i ofalu am wragedd gweddw oedd yn siarad yr iaith Roeg. Roedden nhw'n byw yn y gymdeithas Gristnogol yn Jerwsalem. Nid yn unig roedd yn gofalu am y gwragedd gweddw, roedd hefyd yn sôn am Iesu wrth bobl y ddinas i gyd. Doedd rhai o'r Iddewon oedd yn byw yn Jerwsalem ddim yn hoffi'r ffordd roedd Steffan yn sôn am Iesu.

"Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth efo Steffan," meddai un o'r Iddewon. "Mae'r ffordd y mae o'n sôn am Iesu wrth y bobl..."

"Beth wyt ti'n feddwl?" meddai un arall.

"Wel, dydi o'n sôn dim am Moses, dydi o'n sôn dim am Dduw, dim ond am Iesu bob amser."

"Rwyt ti'n iawn," awgrymodd y llall. "Gwell fyddai i ni ddweud hynny wrth yr awdurdodau."

"Mae'n rhaid i ni ddweud wrth Lys yr Iddewon, sef y Sanhedrin," meddai un arall.

Ymhen dim amser roedd aelodau'r Cyngor wedi galw Steffan. Safodd o'u blaenau. Dechreuodd ddweud wrthyn nhw pam roedd o'n sôn am Iesu Grist. Atgoffodd nhw hefyd o hanes eu cenedl a'u pobl. Dywedodd wrthyn nhw,

"Mae hanes wedi dangos yn glir nad ydych chi erioed wedi gwrando ar Dduw. Rydych chi wedi mynnu cerdded eich ffordd eich hunain. Chi wrthododd Iesu Grist. Chi fradychodd a gwerthu Iesu. Chi groeshoeliodd Iesu ar y groes. Chi laddodd Iesu Grist."

O glywed y geiriau hyn roedd aelodau'r Cyngor yn gandryll ac yn flin iawn wrtho.

"Mae'n rhaid i ni gael gwared â'r dyn yma am byth," meddai un aelod o'r Cyngor.

Llusgwyd Steffan allan o'r ddinas. Dechreuodd y bobl daflu cerrig ato. Roedd y dorf yn gweiddi'n groch. Roedd Steffan yn amlwg wedi cythruddo aelodau'r Cyngor. Wrth i bobl daflu cerrig tuag ato roedd Steffan yn gweddïo,

"Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd." Yna penliniodd a gofyn i Dduw faddau i'r rhai oedd yn taflu cerrig tuag ato.

Roedd rhai o'r dorf yn gweiddi, "Mae'n rhaid i ni ladd y dyn hwn. Mae o'n gwneud drwg mawr i ni."

Ar ôl i bobl fod wrthi'n taflu cerrig ato am gryn amser, bu farw Steffan. Cafodd Steffan ei alw i helpu'r apostolion a bu'n weithiwr diwyd a brwd i'r diwedd.

"Ac wrth iddynt ei labyddio, yr oedd Steffan yn galw, 'Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd.' Yna penliniodd, a gwaeddodd â llais uchel, 'Arglwydd, paid â dal y pechod hwn yn eu herbyn.'"

Actau 7:59-60

Duw fo yn fy mhen
ac yn fy neall,
Duw fo yn fy llygaid
ac yn fy edrychiad,
Duw fo yn fy ngenau
ac yn fy llefaru,
Duw fo yn fy nghalon
ac yn fy meddwl,
Duw fo yn fy niwedd
ac yn fy ymadawiad.
Amen.

(Gweddi Primlyfr Caersallog)

Am iddo godi gwrychyn yr Iddewon fe gafodd Steffan ei ladd ac yntau'n ifanc.
Petai Steffan wedi sôn am Iesu yn ddistaw bach, oni fyddai wedi gwneud mwy o waith drosto?